

PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL

6 Medi 2017

Yn bresennol: Cynghorydd S Yelland (Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair)
Mrs J James, Cynghorydd PJ Morgan a Mr AE Sangster.

(Swyddfeydd APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 11.05am)

[Cyrhaeddodd Ms C Gwyther yn ystod ystyriaeth o eitem 12/17 Canolfan
Wybodaeth Ymwelwyr Trefdraeth, *Cofnod 5* cyfeir]

1. Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb wrth y Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd P Harries, Cynghorydd ML Evans a'r Cynghorydd A Wilcox. Roedd y Cynghorwyr Doolin a Harries yn mynychu'r Gynhadledd Ewroparc ar ran yr Awdurdod.

2. Datgeliadau

Doedd yna ddim datgeliadau o fuddiant.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2017 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2017.

4. Materion yn codi

Castell Caeriw a'r Felin Llanw (Cofnod 6)

Mewn ymateb i gwestiwn yn ymwneud â chynnydd ynghylch y cynllun i sicrhau caffi yng Nghaeriw a'r gwaith sydd ei angen ar y sarn dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr Aelodau y byddai adroddiadau am y ddau fater yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol oedd i'w gynnal ar 27 Medi.

NODWYD.

5. Canolfan Gwybodaeth Ymwelwyr Trefdraeth.

Roedd yr adroddiad hwn yn darparu trosolwg ar gyfer yr Aelodau o berfformiad y Ganolfan Gwybodaeth Ymwelwyr yr Awdurdod (TIC) yn Nhrefdraeth dros y dair blynedd ariannol ddiwethaf. Esboniodd y Prif Weithredwr bod yr Aelodau'n ymwybodol o benderfyniad a wnaed gan yr Awdurdod ym mis Medi 2016 i adolygu'r ddarpariaeth gwybodaeth i ymwelwyr ar draws y Parc Cenedlaethol cyfan, a bod trafodaethau ar y gweill gyda'r gymuned yn Nhrefdraeth. Byddai adroddiad am ddyfodol y Ganolfan yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod nesaf Awdurdod y Parc



Cenedlaethol pan fyddai'r mater yn cael ei drafod. Ychwanegodd un Aelod eu bod wedi derbyn e-bost wrth Sandra Bayes y diwrnod blaenorol a bod ei ddarllen wedi bod yn addysgiadol ac o gynhorthwy.

Aeth Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr y Gogledd, a fu'n rheoli'r Ganolfan, yn ei flaen i ddiweddarau'r Pwyllgor ynghylch gwerthiant chwarter cyntaf y flwyddyn gyfredol, a oedd £3,500 yn uwch na'r hyn a ddisgwyliid yng nghyllideb y prosiect. Roedd nifer yr ymwelwyr ym mis Gorffennaf hefyd yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.

Roedd yr adroddiad yn darparu rhestr o 'Gyfleoedd Eraill (Awgrymiadau Staff)' ac roedd yr Aelodau wedi holi ynghylch rhai o'r rhain. Atebodd y Rheolwr bod y defnydd cymunedol o'r Ganolfan yn digwydd ar raddfa fechan eisoes ond, fodd bynnag, roedd y staff o'r farn fod modd datblygu hyn ymhellach. O ran ehangu'r amrediad o nwyddau cynghorodd fod hyn yn rhywbeth a oedd yn cael ei adolygu'n wastadol. Nododd Aelod arall mai cost net y Ganolfan oedd oddeutu £20,000 y flwyddyn. Atebodd y Prif Weithredwr ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod fel corff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau amrywiol ac nad oedd gan rhai ohonyn nhw y gallu i gynhyrchu incwm sylweddol. Er enghraifft, roedd cynnal a chadw llwybr yr arfordir yn costio oddeutu £300,000 yn flynyddol ond, fodd bynnag, roedd buddiannau'r atyniad hwnnw i'w deimlo ledled y sir. Blaenoriaeth yr Awdurdod oedd darparu gwasanaeth hydwyth a chyfiawn a fyddai'n fwy hyfyw'n ariannol yn y tymor hir.

Roedd yr Aelodau am gofnodi eu diolch i'r staff yn y Ganolfan am eu gwaith.

NODWYD.

- 6. Adroddiad Perfformiad am y Cyfnod yn Gorffen 31 Gorffennaf 2017**
Adroddwyd bod yr adroddiad perfformiad wedi'i addasu i gydymffurfio â strwythur y Cynllun Adnoddau a Chorfforaeth ar gyfer 2017-18, a oedd ei hun wedi'i seilio ar y Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol gyda saith amcan lles, ac adran ychwanegol yn darparu gwybodaeth llywodraethiant cyffredinol.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 31 Gorffennaf 2017 ac yn cynnwys ystadegau chwarter 1 (Ebrill – Mehefin) ar gyfer rhai setiau o ddata. Nododd hefyd bod gwaith ar y gweill ar hyn o bryd ar Fasdata Gweithgareddau ac Achlysuron ac o'r herwydd doedd rhai setiau o ddata ddim yn gyflawn. Byddai'r ffigyrau'n cael eu diwygio pan fyddai'r gwaith wedi'i orffen a'i gyflwyno gerbron cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

Roedd yna ddau ddangosydd coch o ganlyniad i'r ffaith fod paratodau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ddeufis ar ei hol hi o ystyried y dyddiadau



penodol oedd wedi'u nodi yn y Cytundeb Cyflenwi ond roedd y swyddogion yn weddol hyderus y gellid gwneud i fyny am yr amser a gollwyd, ac ychwanegodd y Prif Weithredwr pe na bai'n bosib adennill yr amser, roedd deufis ar ei hôl hi yn fawr ddim o gymharu â'r mwyafrif o awdurdodau eraill. Roedd y dangosydd arall yn ymwneud â gostyngiad yn nifer y trawiadau ar wefan Enjoy, ac roedd gweithredu wedi'i gydnabod mewn ymgais i wrthsefyll y duedd.

Nododd yr Aelodau nad oedd targed wedi'i osod ar gyfer y nifer o ymwelwyr yn y Canolfannau am eleni a gofynnwyd am ystyriaeth i'w roi i osod targed. Atebodd y Swyddogion y byddai'r holl dargedau'n cael eu hadolygu i weld a ydyn nhw'n effeithiol fel rhan o waith datblygu y Cynllun Corfforaethol nesaf. Y brif broblem wrth feincnodi niferoedd ymwelwyr oedd yr amrywio o ran dyddiad y Pasg a fyddai'n aml mewn chwarteri gwahanol. Roedden nhw hefyd yn cwestiynu'r dangosydd newydd yn ymwneud â niferoedd y cwynion ynghylch safonau Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac eglurodd y Prif Weithredwr nad cwynion wedi'u gwneud trwy weithdrefn safonol gwasanaeth yr Awdurdod oedd y rhain ond cofnod o sylwadau yn nodi fod rhannau o'r llwybr wedi gordyfu. Roedd hwn yn declyn rheoli ac o ystyried fod yna dros 1000cm o lwybrau a hithau wedi bod yn haf gwlyb roedd sylwadau o'r fath i'w disgwyl.

Mynegodd yr Aelodau beth pryder ynghylch ystyried y dangosydd melyngoch ar gyfer mesur y canran o Aelodau fynychai hyfforddiant yn ystod y flwyddyn hyd yma a hefyd ynghylch methiant i sicrhau'r Siarter Uwch ar gyfer Datblygiad Aelodau. Cytunodd y swyddogion i edrych ar y ffigyrau i weld sut oedden nhw wedi'u paratoi ac i ddarparu diweddiariad ynghylch beth oedd angen ei wneud i sicrhau cynnydd o ran y Siarter Uwch.

Nodwyd bod yna 23 o geisiadau ffilmio wedi dod i law a holodd yr Aelodau ynghylch buddiant y rhain i'r Awdurdod. Atebodd y Prif Weithredwr y medren nhw greu incwm sylweddol yn ogystal â chyhoeddusrwydd (er roedd Freshwater West wedi cael ei ddefnyddio'n ddiweddar i gyfleu clogwyni gwynion Dover) ac fe fyddid yn gofyn i'r swyddog perthnasol i roi cyflwyniad i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Wrth ddiolch i'r swyddog am ei hadroddiad nododd un Aelod fod yna lawer o ddangosyddion nawr a bod yna berygl o ormod o fonitro nes ei bod yn hawdd colli golwg ar y darlun cyflawn. Atebodd y swyddogion fod y Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i osod set newydd o ddangosyddion i ddangos p'un a oedd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amcanion oedd wedi'u gosod yn y ddeddf neu beidio. Roedd ystod ehangach o weithgareddau felly wedi'u hystyried ond o ran paratoi ar gyfer y Cynllun Corfforaethol nesaf byddai'r holl ddangosyddion yn cael eu hadolygu er mwyn canfod pa rai sydd yn allweddol. Cytunodd yr Aelodau y byddai crynodeb un dudalen yn tynnu sylw at y prif



ddangosyddion o gymorth ac fe ofynnodd y swyddog am awgrym pa rai fyddai'r dangosyddion tebygol hynny.

Penderfynwyd y dylai'r Adroddiad Perfformiad gael ei **DDERBYN**.

7. Cofrestr Risg

Adroddodd y Rheolwr Cyllid fod y gofrestr risg wedi'i adolygu gan y Rheolwyr a'r Timau Arweiniad ac roedd y cynnydd diweddar a'r newidiadau wedi'u nodi. Cafodd newidiadau arwyddocaol o ran risg eu hamlinellu yn yr adroddiad ac roedd y gofrestr lawn wedi'i atodi er mwyn i'r Aelodau ei ystyried. Yr unig ychwanegiad oedd yng nghyswllt y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a fyddai'n berthnasol yn y DG o 25 Mai 2018. Nodwyd y byddai cyflwyniad o ofynion y GDPR yn cael ei roi gerbron yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Nodwyd y dylai risg 38 (ymateb gwrthwynebus i'r ymgynghoriad ynghylch darparu gwybodaeth) a 39 (cydymffurfriad â'r GDPR newydd) fod â tharged gwyrdd yn hytrach na'r melyn goch presennol, ond roedd y risg cyfredol yn felyngoch yn gywir. Roedd yna hefyd rhai diweddariadau oedd eu hangen yn y golofn cynnydd.

NODWYD.

8. Grŵp Gwelliant Parhaus: dirprwyo materion

PENDERFYNWYD nad oedd yna faterion oedd angen eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

